

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 05/12/2014

**STATWS: GWYBODAETH**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl:** Y Diweddaraaf am Ofal Iechyd Darbodus

**Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad Dd/G**

**I'w Weithredu gan:**  
Prif Weithredwyr BILlau/Ymddiriedolaethau'r GIG  
Cyfarwyddwyr Cynllunio/Strategaeth  
Arweinwyr Cyfathrebu

**Angen gweithredu erbyn:** Dd/G

**Anfonwr:** Dr Andrew Goodall a Dr Ruth Hussey OBE

**Enw(au) Cyswllt AIGC Llywodraeth Cymru :**

Alex Hicks  
Pennaeth Strategaeth Iechyd  
Polisi Iechyd  
02920826493

**Dogfennau amgaaedig:** Rhoi Gofal Iechyd Darbodus ar Waith - Y Diweddaraaf

# Rhoi Gofal Iechyd Darbodus ar Waith – Y Diweddraf

[www.gofaliechyddarbodus.org.uk](http://www.gofaliechyddarbodus.org.uk)

Cylchlythr Iechyd Cymru –  
WHC/002/14



# Diben

Ym mis Ionawr 2014, gofynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r GIG yng Nghymru ystyried y syniad o ofal iechyd darbodus, helpu i ddatblygu'r egwyddorion ymhellach, a chymryd camau i ddechrau eu cymhwyso. Gwelwyd nifer sylweddol o ddatblygiadau ers hynny. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi trosolwg o'r rhain ac yn nodi'r adnoddau, y cyngor, a'r canllawiau a roddwyd ar waith er mwyn helpu i ddatblygu gofal iechyd darbodus o fewn eich sefydliadau yn barhaus.

## Egwyddorion allddodol

Mae cyflawni gwerthoedd clinigol wrth wraidd gofal iechyd darbodus ac mae'n dangos y cyfraniad pwysig y mae unigolion yn ei wneud wrth greu a chynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Mae nifer o agweddau ar ofal iechyd darbodus eisoes i'w gweld ym mhob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, hyd yma, nid oes yr un sefydliad wedi rhoi'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar werthoedd a anogir gan ofal iechyd darbodus ar waith ar draws ei system gyfan er mwyn llywio newidiadau mewn ymarfer a diwylliant.

Drwy roi mwy o werth i'r canlyniadau a gyflawnir yn hytrach na'u nifer, nod gofal iechyd darbodus yw ail-gydbwyso'r systemau a arweinir gan gyflenwad sydd wedi datblygu ar sail yr hyn y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ei wneud, tuag at systemau sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd a gaiff eu trefnu ar sail y triniaethau sy'n fwyaf priodol i gyflawni nodau y cytunwyd arnynt ar y cyd sy'n dangos y cyfraniad y gall unigolion ei wneud at eu hiechyd a'u lles eu hunain yn well.

**Noda egwyddorion gofal iechyd darbodus y dylai unrhyw wasanaeth neu unigolyn sy'n darparu gwasanaeth:**



Sicrhau nad ydynt yn gwneud unrhyw niwed - dileu triniaethau sy'n achosi niwed neu nad oes unrhyw fudd clinigol iddynt.



Defnyddio'r ymyriad priodol lleiaf posibl - yr egwyddor y dylai triniaeth ddechrau gyda phrofion sylfaenol a brofwyd. Dylid defnyddio'r driniaeth leiaf bosibl er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol.



Trefnu staff ar sail yr egwyddor y 'dylech ond gwneud yr hyn y gallwch chi ei wneud', lle y dylai pawb sy'n gweithio i'r GIG yng Nghymru weithredu hyd eithaf eu gallu clinigol.



Gweithio ar sail yr egwyddor mai angen clinigol yr unigolyn sy'n bwysig wrth benderfynu pa driniaeth i'w darparu gan y GIG.



Meithrin cydberthynas newydd rhwng y cyhoedd a GIG Cymru, sy'n seiliedig ar fod yn agored a rhannu gwybodaeth.

## Datblygiadau ac adnoddau

### Ers cyhoeddi gofal iechyd darbodus, gwnaed y cynnydd canlynol:

1. Lansio'r adnodd ar-lein – Rhoi Gofal Iechyd Darbodus Ar Waith – yng Nghynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 7 Hydref. Cafwyd ymateb da i'r adnodd, a thros 10,000 o ymweliadau â'r tudalennau ers ei lansio. Mae'n dangos yr hyn y mae gofal iechyd darbodus yn ei olygu mewn cyd-destunau gwahanol, ynghyd ag enghreifftiau o feysydd gwasanaeth sydd eisoes wedi dechrau cymhwyso'r egwyddorion. Mae'r adnodd ar gael yn [www.prudenthealthcare.org.uk](http://www.prudenthealthcare.org.uk), ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cofiwch gymryd amser i ymweld â'r adnodd a chymryd rhan yn y fforwm trafod.
2. Gwelwyd trafodaethau bywiog iawn am ofal iechyd darbodus, gydag unigolion, sefydliadau a grwpiau proffesiynol yn croesawu ac yn integreiddio'r syniad o ofal iechyd darbodus, er mwyn newid ymarfer a diwylliant.
3. Mae'r Gweinidog wedi gwneud dau ddatganiad ysgrifenedig am ofal iechyd darbodus, gan gynnwys amlinellu cyfres o egwyddorion (a nodwyd uchod), ac mae wedi cyflwyno Papur Cabinet ([www.tinyurl.com/cabinetpaperPHC](http://www.tinyurl.com/cabinetpaperPHC)), a gafodd ei drafod a'i gefnogi gan aelodau ar 16eg Mehefin 2014. Y gobaith yw bod y Papur Cabinet yn darparu cyd-destun gwasanaeth cyhoeddus ehangach ar gyfer gofal iechyd darbodus. At hynny, mae'n siŵr y byddwch wedi sylwi ar nifer o ddigwyddiadau y mae'r Gweinidog wedi siarad ynddynt ynghylch gofal iechyd darbodus dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r Gweinidog hefyd wedi gofyn i Gomisiwn Bevan, a gafodd ei adnewyddu'n ddiweddar, roi cynngor parhaus ar ofal iechyd darbodus.
4. Lansiwyd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015 yn ddiweddar, ac mae gofal iechyd darbodus yn brif egwyddor drefniadol amlwg iawn. Mae'r fframwaith hwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG ddiweddarau eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig o safbwynt gofal iechyd darbodus. Mae'r fframwaith ar gael yma – <http://wales.gov.uk/topics/health/nhswales/organisations/planning/guidance/?skip=1&lang=cy>
5. Lansiwyd cynllun Gofal Sylfaenol â rhaglen gysylltiedig a gynlluniwyd i helpu sefydliadau'r GIG i gymhwyso egwyddorion gofal iechyd darbodus [www.tinyurl.com/PCplan](http://www.tinyurl.com/PCplan), ochr yn ochr â rhaglen fuddsoddi strwythuredig er mwyn canolbwyntio ar ofal sylfaenol. Bydd gofal sylfaenol bob amser wrth wraidd system gofal iechyd darbodus, lle mai osgoi niwed osgoadwy yw ein harwyddair a lle rydym yn ymyrryd cyn lleied â phosibl er mwyn ymdrin â phroblemau cleifion.
6. Mae gwasanaeth Gwella 1,000 o Fywydau Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi hwyluso pedwar gweithdy er mwyn profi'r ffordd y caiff gofal iechyd darbodus ei gymhwyso mewn pedwar maes clinigol. Mae'r canfyddiadau, y casgliadau a'r argymhellion a ddeilliodd o'r gweithdai ar gael yma <http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/prudent-healthcare>.
7. Datblygwyd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio, a gynlluniwyd, yn rhannol, er mwyn helpu sefydliadau i gymhwyso egwyddorion gofal iechyd darbodus ac mae'n cynnwys ffrydiau gwaith penodol ar y canlynol: blaenoriaethu gwerth clinigol; gofal integredig; mesur sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Ceir rhagor o fanylion yn Fframwaith Cynllunio diwygiedig GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014 <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/planning/?skip=1&lang=cy>
8. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar roi gofal iechyd darbodus ar waith, gan sicrhau y caiff yr egwyddorion eu hintegreiddio'n gynyddol i mewn i'w gweithgarwch. Mae Cynlluniau Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd, sy'n canolbwyntio ar glefydau penodol, i gyd yn cynnwys adrannau clir ar atal a thriniaeth effeithiol a chyflymach. Mae gofal iechyd darbodus hefyd yn rhan amlwg o'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar y Fframwaith Safonau Iechyd Arfaethedig a gynlluniwyd i helpu i sicrhau gofal diogel a thosturiol i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG.

# 'Prif egwyddor drefniadol'

Bu egwyddorion gofal iechyd darbodus yn sail i ganllawiau'r GIG a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac **Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2013/14**, ac maent yn rhan amlwg o'r dogfennau hyn. Dangosir isod sut mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â gofal iechyd darbodus fel prif egwyddor drefniadol:

## Egwyddor:

**Dileu triniaethau sy'n achosi niwed neu nad oes unrhyw fudd clinigol iddynt.**

Gellir dehongli'r egwyddor hon ar lefel y boblogaeth a darparwyr gofal iechyd. Mae'r gwaith sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu Bil Iechyd y Cyhoedd yn helpu i wella iechyd y boblogaeth drwy, er enghraifft, atal y niwed sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol a defnyddio tybaco.

### **Integreiddio mewn canllawiau/adroddiadau diweddar:**

*'Mae'r Fframwaith Cynllunio yn hyrwyddo dull systematig o werthuso ymarfer a chynhyrchion presennol, gan fynd i'r afael ag anghenion heb eu diwallu a chael gwared ar ddulliau gweithredu sy'n achosi niwed neu nad ydynt yn cynnig gwerth da am arian,'* **(gweler tudalen 61, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015/16 (Saesneg yn unig)).**

*'Yn unol â'r polisi dim goddefgarwch mewn perthynas â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, lanswyd y Cod Ymarfer ar atal a rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ym mis Mehefin 2014.'*

*<http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/publications>* **(gweler tudalen 56, Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2013/4).**

*'The Integrated Medium Term Plan[s] must demonstrate [...] the purposeful steps to adhere to extant guidelines on Interventions Not Normally Undertaken, Clinical Thresholds, and NICE Do Not Do guidance, in line with the Planned Care Programme.'* **(tudalen 39, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015/16 (Saesneg yn unig))**

*'Mae rhoi hyfforddiant i weithwyr proffesiynol presennol, fel nyrsys a fferyllwyr, mewn ymarfer uwch, fel rhagnodi, yn ffordd gymharol gyflym a darbodus o ddefnyddio adnoddau er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o sgiliau yn lleol. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £3.5 miliwn o arian canolog ychwanegol er mwyn dechrau'r broses hon o 2014-15.*



## Egwyddor:

**Defnyddio'r ymyriad priodol lleiaf posibl – dechrau unrhyw driniaeth gyda phroffion sylfaenol a brofwyd.**



Datblygwyd y cynlluniau cyflawni cenedlaethol er mwyn sicrhau bod yr egwyddor hon yn rhan greiddiol o bob un ohonynt, ac maent yn nodi'n glir yr hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan eu gwasanaethau gofal sylfaenol lleol, gan osgoi'r angen i'w cyfeirio at ofal arbenigol lle y bo'n briodol.

### **ntegreiddio mewn canllawiau/adroddiadau diweddar:**

*'Organisations [...] will demonstrate how [...] they have reduced overtreatment and eliminated interventions which [...] provide no clinical benefit.'* **(tudalen 38, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015/16 (Saesneg yn unig)).**

*'Efallai fod y cynnydd [mewn meddygaeth fodern] ...wedi creu sefyllfa lle mae mwy'n cael ei wneud nag y mae angen ei wneud neu fwy nag y dylid ei wneud. [Gallai clinigwyr ganolbwyntio] mwy ar sicrhau cydbwysedd rhwng y dystiolaeth orau ac asesiad y claf wrth helpu i gytuno ar y nod gorau ar gyfer y cwrs o driniaeth.'* **(tudalen 59, Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2013/4).**

*'Mae canlyniad gwasanaeth gofal sylfaenol da yn cynnwys pan y gall claf ddweud "Rwy'n cael gofal personal sydd wedi'i deilwra i ddiwallu fy anghenion ond a gaiff ei lywio gan dystiolaeth o effeithiolrwydd [...]'* **tudalen 8, Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru, Tachwedd 2014).**

*'Bydd gofal sylfaenol [...] lle rydym yn ymyrryd cyn lleied â phosibl er mwyn ymdrin â phroblemau cleifion, bob amser wrth wraidd system gofal iechyd ddarbodus.'* **(tudalen 2, Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru, Tachwedd 2014).**

## Egwyddor:

Trefnu staff ar sail yr egwyddor y 'dylech ond gwneud yr hyn y gallwch chi ei wneud' – lle y dylai pawb sy'n gweithio i'r GIG yng Nghymru weithredu hyd eithaf eu gallu clinigol.



Mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y gweithlu cywir ar waith er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r egwyddor hon. Mae tystiolaeth annibynnol fel Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru, yr Adolygiad o Ddatblygu Hyfforddiant, a'r Adolygiad o Fuddsoddi mewn Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol yn cael eu defnyddio er mwyn llywio cynllun cenedlaethol ar gyfer gweithlu gofal sylfaenol. Bydd hyn yn helpu byrddau iechyd i gynllunio, datblygu a darparu'r gweithlu gofal sylfaenol sydd ei angen i ddiwallu anghenion pobl.

### Integreiddio mewn canllawiau/adroddiadau diweddar:

*'[...]heart failure patients are [...] benefitting from faster access to advanced nurse practitioners who are able to deal with their needs appropriately in the community, with prompt access to all secondary care services and consultants as and when they require it.'* (Papur Cabinet – [www.tinyurl.com/cabinetpaperPHC](http://www.tinyurl.com/cabinetpaperPHC)).

*'dylai pawb sy'n gweithio i'r GIG yng Nghymru weithredu yn unol â'u cymhwysedd clinigol gorau un, ac ni ddylai neb er enghraifft gael ei weld fel mater o drefn gan ymgynghorydd pan fyddai modd delio â'i anghenion yn briodol gan, dyweder, uwch ymarferydd nyrsio'* (tudalen 59, Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2013/4).

*'An organisation that undertakes effective workforce planning and organisational development is one that has a long term approach, that is responsive to national priorities such as prudent healthcare, prevention, tackling health inequalities and the shift to primary and community care.'* (tudalen 55, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015/16 (Saesneg yn unig)).

*'Yn y dyfodol, yn gynyddol,... rôl [meddyg teulu] fydd darparu arweinyddiaeth gyffredinol ar gyfer timau amlbroffesiynol sy'n cynnwys uwch nyrsys practis, nyrsys cymunedol a nyrsys ardal, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd, fferyllwyr, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, podiatryddion, deintyddion, optometryddion, staff gwasanaethau cymdeithasol a staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal a gwasanaethau yn y trydydd sector* (tudalen 20, Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru, Tachwedd 2014).

## Egwyddor:

**Gweithio ar sail yr egwyddor mai angen clinigol yr unigolyn sy'n bwysig wrth benderfynu pa driniaeth i'w darparu gan y GIG.**



Ceir ymrwymiad i leihau'r rhwystrau a hyrwyddo mynediad cyfartal i ofal iechyd er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yn cymryd camau o dan y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi er mwyn cau'r bwlch o ran pwysau geni a disgwyliad oes iach rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig erbyn 2020. Mae dau brosiect arloesol ym maes deddf gofal wrthgyfartal hefyd yn mynd rhagddynt ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan sy'n canolbwyntio ar glefyd cardiofasgwlaidd.

### **Integreiddio mewn canllawiau/adroddiadau diweddar:**

*Er mwyn helpu i wella iechyd poblogaethau, rydym am i fyrdau iechyd ddatblygu dulliau lleol o asesu anghenion iechyd a lles unigolion, teuluoedd a chymunedau lleol. Wedyn caiff yr asesiad hwn o anghenion sy'n sensitif iawn yn lleol ei ddefnyddio i lunio a llywio cynlluniau ar lefel cymuned...* **(tudalen 9, Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru, Tachwedd 2014).**

*'Integrated Medium Term Plan[s] must [...] show evidence of a deliberate shift to applying the principle of proportionate universalism.'* **(action that is universal, but proportionate to the level of disadvantage) (tudalen 40, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015/16 (Saesneg yn unig))**

*' Mae gwaith cynllunio lleol drwy glystyrau gofal sylfaenol yn cynnig cyfle gwirioneddol i nodi anghydraddoldebau iechyd ar lefel cymuned a mynd i'r afael â hwy'* **(tudalen 19, Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru, Tachwedd 2014).**

*'Delivery Framework domain – People in Wales have timely access to services based on clinical need and are actively involved in decisions about their care.'* **(tudalennau 68 a 71, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015/16 (Saesneg yn Unig))**



## Egwyddor:

**Meithrin cydberthynas newydd rhwng y cyhoedd a GIG Cymru, sy'n seiliedig ar fod yn agored a rhannu gwybodaeth.**



Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu systemau i gydbwyso'r gydberthynas rhwng darparwyr gofal iechyd a chleifion, er mwyn galluogi cleifion i gael mwy o lais, rheolaeth, a chyfrifoldeb dros sicrhau eu canlyniadau iechyd eu hunain. Mae hyn yn cynnwys datblygu Gwasanaeth Fy Iechyd Ar-Lein, gan gynnwys gwasanaeth archwilio iechyd ar-lein Ychwanegu at Fywyd.

### **Integreiddio mewn canllawiau/adroddiadau diweddar:**

*Mae cydnabyddiaeth gynyddol o werth y wybodaeth a'r sgiliau sydd gan gleifion i'w cynnig er mwyn helpu i gyd-gynhyrchu atebion. Gall cleifion sydd â chyflyrau tymor hir yn benodol ddod yn arbenigwyr mawr ar eu gofal hwy eu hunain.'* **(tudalen 28, Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2013/4).**

*Mae'r [...] canolbwyntio ar 'gyd-gynhyrchu' yn addas iawn ar gyfer gofal sylfaenol, oherwydd mewn gofal sylfaenol, bydd y berthynas rhwng pobl yn chwarae rhan bwysig wrth iddynt ddefnyddio'u gwasanaethau lleol. Bydd cleifion yn aml yn cyfeirio at 'fy meddyg teulu', 'fy neintydd', 'fy nyrs' neu 'fy mhreactis'* **(tudalen 22, Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2013/4).**

*'Wrth wraidd y cynllun [Gofal Sylfaenol] hwn mae'r syniad o gydgyhyrchu, sef cydnabod mai drwy nodi cyfraniad cleifion yn ogystal ag ymarferwyr a'i roi ar waith y sicrheir y canlyniadau iechyd gorau posibl.'* **(tudalen 3, Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru, Tachwedd 2014).**

*'Effective mechanisms for continuous engagement with local communities are critical [...] recognising that the public are best placed to understand local issues... This should be complemented by an effort to identify the local strengths, assets and opportunities that can be built on [to] protect and promote health and independence.'* **(tudalen 14, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015/16 (Saesneg yn unig)).**

Mae'r tablau hyn yn dangos natur greiddiol yr egwyddorion a'r ffordd y cânt eu hintegreiddio. Ein her ar y cyd nawr yw i gymhwyso'r egwyddorion a chyflawni newid gweddnewidiol. Ni ddylai gwasanaethau gael eu hailddisgrifio'n rhai darbodus ond dylid newid eu ffocws a'u gweddnewid gan ddefnyddio egwyddorion gofal iechyd darbodus er mwyn sicrhau gwerth gwell ar gyfer y boblogaeth.

# Mae mwy i ddod...

**Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn glir wrth gyflwyno'r cysyniad o ofal iechyd darbodus mai dim ond pe bai'n cael ei groesawu gan bawb sy'n ymwneud â chreu Cymru iachach, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, y byddai'n cael ei roi ar waith. Er mwyn hwyluso hyn, gyda'i gilydd, bydd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn gwneud y canlynol:**

1. Ymestyn gweithgareddau ymgysylltu ymhellach er mwyn cynnal a datblygu cwmpas y rhai sy'n cyfrannu at Gymru iachach, gan gynnwys drwy:
  - a. Gweithio gyda gwasanaeth gwella 1,000 o fywydau Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn datblygu rhaglen dreigl o sgysiau â dinasyddion/cleifion;
  - b. Cynnal ymarfer ymgysylltu ag arweinwyr arloesedd mewn BILLau/Ymddiriedolaethau;
  - c. Darparu gweithdy/gweithdai NICE gyda BILLau;
  - d. Profi'r dull o ymdrin â gofal iechyd darbodus ymhellach mewn pedwar maes arbenigol/ardal ddaearyddol.
  - e. Cyfrannu at Gynhadledd Cydffederasiwn GIG Cymru ym mis Ionawr 2015
  - f. Darparu'r ffocws ar gyfer Digwyddiad Dysgu Cenedlaethol gwasanaeth gwella 1,000 o fywydau ym mis Mehefin 2015.
2. Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid er mwyn cyhoeddi cyfran arall o gyfraniadau ac astudiaethau achos i'w hychwanegu at adnodd ar-lein Rhoi gofal iechyd darbodus ar waith, gan ganolbwyntio'n benodol ar roi ffocws i ofal iechyd a diffinio cyd-gynhyrchu ymhellach. Caiff y cam nesaf ei lansio ar 28ain Ionawr 2015.
3. Datblygu blaenoriaethau cynnar rhaglenni gofal wedi ei gynllunio, gofal heb ei drefnu, a gofal sylfaenol, sy'n cynnwys gwaith i ddiwygio canllawiau ar Flaenoriaethu Gwerth Clinigol.
4. Defnyddio'r fframwaith cynllunio a ddiwygiwyd yn ddiweddar er mwyn olrhain cynnydd o ran rhoi gofal iechyd darbodus ar waith mewn BILLau/Ymddiriedolaethau.
5. Cydgysylltu priod raglenni ymchwil polisi iechyd yng Nghymru, er mwyn cyfrannu at system gofal iechyd darbodus, gan gynnwys galwad am ymchwil gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn y flwyddyn newydd er mwyn profi/modelu effaith gofal iechyd darbodus.
6. Parhau i ddysgu oddi wrth ymgyrchoedd rhyngwladol sy'n datblygu mewn nifer o wledydd ac sy'n deillio o asesiadau diweddar o'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf a'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol.
7. Sicrhau y caiff gofal iechyd darbodus ei gynnwys fel dull gweithredu cyffredinol wrth ddatblygu'r Fframwaith Safonau Gofal Iechyd.

At hynny, bydd Comisiwn Bevan a ffurfiwyd yn ddiweddar yn myfyrio ar y drafodaeth hyd yma ac yn helpu i ddiffinio'r egwyddorion ymhellach, gan gyhoeddi adroddiad flwyddyn ar ôl cyflwyno gofal iechyd darbodus yng nghynhadledd Cydffederasiwn GIG Cymru ym mis Ionawr 2015.

**A fyddech cystal â rhoi o'ch amser i ymweld â gwefan [www.prudenthealthcare.org.uk](http://www.prudenthealthcare.org.uk) ei defnyddio a chyfrannu ati, er mwyn helpu i greu Cymru sy'n iachach, yn hapusach ac yn decach.**